# Tuag at Ddiwylliant Cyffredinol o Atgyweirio ac Ailddefnyddio yng Nghymru

3:16
Diolch, Huw.

3:18
Fy enw i yw Ellie Trotman ac rwy’n ddadansoddwr yma yn WRAP.

3:23
Rwyf wedi bod yn cymryd rhan fawr yn y prosiect map trywydd, yn ymwneud â holl elfennau’r ymchwil, yn cynnwys ysgrifennu, datblygu’r map trywydd ei hun, dylunio’r ddogfen crynodeb a llunio cwestiynau’r ymgynghoriad eu hunain.

3:37
Byddaf hefyd yn gweithio ar ddadansoddiad yr ymgynghoriad ei hun.

3:41
Felly, roeddwn i jyst am ddweud diolch i bawb am roi o’ch amser heddiw i fynychu’r gweminar hwn.

3:46
Nod gyffredinol ein sesiwn heddiw yw codi ymwybyddiaeth am y map trywydd a’r ymgynghoriad, ac yn y pen draw, eich annog chi oll i gymryd rhan a rhannu’r ymgynghoriad gyda’ch rhwydwaith.

3:58
Felly, fel dadansoddwr, mae fy swydd i’n golygu gofyn llawer o gwestiynau a, gobeithio, cael atebion.

4:06
Rwyf wedi ceisio cymhwyso'r un rhesymeg i strwythur y weminar hon gyda'r gobaith y byddaf yn gallu ateb pob un o'r cwestiynau canlynol ac yna unrhyw gwestiynau a allai fod gennych chi.

4:15
Felly erbyn diwedd y gweminar hwn, byddwch chi gyfranogwyr yn gwybod beth yw’r map trywydd, pam rydym yn cynnal ymgynghoriad ar y map trywydd, ble mae dod o hyd i’r map trywydd a sut i ateb a rhannu’r ymgynghoriad, ac i bwy rydym yn gofyn i ateb yr ymgynghoriad.

4:30
Felly, beth yw’r Map Trywydd Atgyweirio ac Ailddefnyddio?

4:34
Nod y Strategaeth Mwy nag Ailgylchu yw symud tuag at ddiwylliant cyffredinol o ailddefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu mewn cymunedau a chanol trefi.

4:43

Fel rhan o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu 80 o ganolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio mewn canol trefi a'r nod yw hyrwyddo'r cyfleusterau hyn i annog siopa diwastraff.

4:53
Yn 2023, comisiynwyd WRAP i ymchwilio a llunio map trywydd o'r camau sy'n angenrheidiol ac y gellir gweithredu arnynt y mae eu hangen i wneud y newid hwn tuag at ddiwylliant cyffredinol o atgyweirio ac ailddefnyddio erbyn 2050.

5:07
Ymgymerwyd â nifer o brosiectau eraill ar yr adeg hon a fydd yn bwydo i mewn i'r map trywydd, fel dadansoddiad o'r gwasanaethau a ddarperir a bylchau sgiliau yn y sector atgyweirio ac ailddefnyddio, yn ogystal ag edrych ar atebion digidol ledled Cymru.

5:20
Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid drwy gydol y prosiectau hyn oll.

5:25
Felly, o ran y siwrne hyd yma, roedd cam ymchwil y prosiect yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth, casglu arbenigedd mewnol ac adroddiadau yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfweliadau un i un a gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd fis Tachwedd diwethaf.

5:45
Felly fe hoffwn i dynnu sylw at rai canfyddiadau lefel uchel.

5:49
Roedd astudiaethau achos yn brin, ac yn aml yn canolbwyntio ar fentrau gwirfoddol bach a chanolig.

5:56
Prin yw'r dystiolaeth empirig, yn arbennig o ran yr agwedd dadansoddiad cost a budd ar atgyweirio ac ailddefnyddio ac roeddent yn aml yn canolbwyntio ar y camau nesaf neu ar faterion economaidd-gymdeithasol.

6:09
Canfuom yn aml nad ymgyrchoedd yn ymwneud ag atgyweirio ac ailddefnyddio efallai mor gynhwysol ag yr oeddem wedi'i obeithio a bod cysylltiad cryf rhwng ymdrechion atgyweirio ac ailddefnyddio â'r gymuned wirfoddol a'r sector mentrau cymdeithasol.

6:21
Fel y mae llawer ohonoch yn gwybod, mae'n siŵr, mae dod o hyd i gynaliadwyedd ariannol o fewn atgyweirio ac ailddefnyddio, yn arbennig yn y sector gwirfoddol, yn her enfawr o hyd.

6:30
Felly, fe wnaethom ddod o hyd i lawer o syniadau a gwersi gwych, ond ni chyflawnwyd lawer ohonynt ar raddfa genedlaethol fawr, fel y gobeithiwn ni ei gyflawni.

6:42
Yng Nghymru yn benodol mae bwlch darpariaeth gwasanaethau atgyweirio ledled y wlad ac mae bwlch ailddefnyddio llai, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.

6:52
Fe wyddom fod cryn awch am atgyweirio ac ailddefnyddio yng Nghymru.

6:56
Felly, canfu un o'n harolygon tracio bod 33% o ymatebwyr wedi prynu nwyddau ail-law yn ddiweddar, 60% yn agored i brynu'n ail-law, a 67% o bobl Cymru heb eto gymryd rhan mewn prynu eitemau ail-law.

7:14
Felly mae potensial anferth am dwf.

7:17
Cyn inni symud ymlaen i'r pwynt nesaf, hoffwn edrych a gweld a oes yna gwestiynau penodol wedi codi.

7:22
Rwyf am fynd i gael golwg ar y sgrin.

7:27
Siopa diwastraff.

7:29
Sut mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu diffinio siopa diwastraff, allaf i ddim dweud wrthych chi ar gof.

7:35
Eto, alla i ddim siarad ar ran Llywodraeth Cymru ond rwy'n siŵr y byddant yn ymdrin â hyn yn y ddogfen Mwy nag Ailgylchu.

7:44
Oes yna unrhyw gwestiynau eraill?

7:47
A sut mae Llywodraeth Cymru yn diffinio canolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio mewn canol trefi ar hyn o bryd?

7:52
Eto, daw hynny o Mwy nag...

7:56
Na, daw hynny o'u strategaeth ar atgyweirio ac ailddefnyddio.

8:03
Eto, gallaf ddod yn ôl atoch ar hynna.

8:05

Eto yn arbennig, hoffwn ategu nad ydyn ni’n siarad ar ran diffiniadau Llywodraeth Cymru, ond mi wnaf nodyn o hynna a dod yn ôl atoch, Ella.

8:20
Felly os yw'n iawn, dyna ni.

8:26
Mi symudaf ymlaen i’r cam nesaf, sef siarad am y map trywydd.

8:31
Felly, mae’r map trywydd ei hun yn cyflwyno saith categori ac 17 grŵp gweithredu ac mae’n ryw drafod lle bydd y meysydd hynny’n cyfrannu at ddiffiniad o ddiwylliant cyffredinol o atgyweirio ac ailddefnyddio yng Nghymru.

8:46
A dyma’r rhain, mae hwn yn dabl mawr, a dydw i ddim am fynd drwyddo yn y cyflwyniad hwn.

8:51
Byddwn yn anfon y cyflwyniad ichi ar ôl y gweminar.

8:54
Felly gallwch fwrw golwg dros hwn eich hunain.

8:56
Mae yna ddolenni i chi eu defnyddio.

8:59
Yr hyn y byddaf yn ei drafod yn fras yw’r saith categori ar yr ochr chwith, sef sefydlu ar gyfer llwyddiant, codi ymwybyddiaeth a chyfleu’r manteision.

9:10
Arweinyddiaeth y sector cyhoeddus, cynyddu cyrhaeddiad a hygyrchedd.

9:14
Partneriaethau ar gyfer cydweithredu.

9:16
Atgyweirio ac ailddefnyddio fel sbardun busnes cylchol a dysgu gydol oes ar gyfer atgyweirio ac ailddefnyddio.

9:24
Mae’r adroddiad ei hun, gan gofio mai’r ddogfen crynodeb yw’r un y byddwn yn gofyn ichi ymgynghori arni, yn edrych ar gefndir a chyd-destun y prosiect.

9:32
Mae’n diffinio sut mae diwylliant cyffredinol o atgyweirio ac ailddefnyddio yn edrych yn ymarferol.

9:37
Yn seiliedig ar ddiffiniad a roddir inni gan Lywodraeth Cymru.

9:41
Mae’n archwilio’r agweddau, cyfleoedd a rhwystrau presennol.

9:45
Mae’n edrych ar sut gallai atgyweirio ac ailddefnyddio edrych yn y dyfodol ac mae’n awgrymu mecanweithiau ar gyfer addasu mentrau.

9:54
Felly, sefydlu ar gyfer llwyddiant.

9:56
Felly fe wnaethom nodi 2 brif gam gweithredu a fyddai'n sylfaen ar gyfer camau gweithredu eraill yn y map trywydd.

10:02
Mae’r rhain yn sefydlu mecanweithiau atebolrwydd a fydd yn gosod targedau ac yn mesur cynnydd a fydd yn sicrhau tryloywder yn ogystal â mecanwaith cymorth digidol.

10:14
Felly cael rhyw fath o lwyfan ar y rhyngrwyd i ganoli'r holl wybodaeth sy'n ymwneud g atgyweirio ac ailddefnyddio yng Nghymru.

10:27
Codi ymwybyddiaeth a chyfleu’r manteision, felly mae angen i ni arfogi a grymuso dinasyddion â gwybodaeth ac ymwybyddiaeth.

10:31
Gwyddom o’n gwaith ymchwil fod dinasyddion eisoes yn ymwybodol o arferion ailddefnyddio ac atgyweirio, ond efallai nad ydynt yn ymwybodol o’r manteision a allai eu hysgogi i weithredu.

10:42
Felly mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein hymgyrchoedd a’n hymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn cyfleu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol fel rhan ohonynt oll.

10:51
Felly, er enghraifft, yng Nghymru, pe bai arferion atgyweirio ac ailddefnyddio’n cynyddu gan tua 25%, amcangyfrifir y byddai 27,705 o swyddi’n cael eu creu yn yr economi gylchol.

11:05
Felly, Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus. Mae Cymru yn falch o fod yn ail yn y byd am ailgylchu ac mae hynny wedi deillio o seilwaith, addysg, arferion caffael a deddfwriaeth briodol.

11:18

Rydym am archwilio sut y gallwn gymryd yr un camau hynny ond gan ganolbwyntio ar atgyweirio ac ailddefnyddio.

11:23
Mae hyn yn cynnwys annog diwylliannau atgyweirio ac ailddefnyddio mewn addysg, edrych ar y cyfleoedd deddfwriaethol megis yr hawl i atgyweirio ac edrych ar gaffael yn y sector cyhoeddus.

11:36
Mae'n rhaid i hygyrchedd fod wrth galon unrhyw fenter sy'n sicrhau y gall pawb gymryd rhan ac nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

11:45
Mae angen i ni edrych ar bethau fel lleoliad, argaeledd gwasanaethau, gwneud yn siŵr mai arferion atgyweirio ac ailddefnyddio yw'r opsiwn dymunol.

11:55
Nid oes diffiniad o hygyrchedd o fewn deddfwriaeth, ond rydym yn cynnig, er mwyn i wasanaethau gael eu hystyried yn hygyrch, y dylent gadw at y gofynion hygyrchedd a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

12:11
Felly, partneriaethau ar gyfer cydweithredu.

12:13
Mae cydweithredu’n allweddol mewn unrhyw ddiwylliant.

12:16
Mae’n sicrhau bod gan bawb rôl, bod pawb yn atebol yn y rôl honno, y bydd pawb yn dysgu oddi wrth ei gilydd, yn meithrin ymddiriedaeth ac yn datblygu iaith gyffredin ym myd atgyweirio ac ailddefnyddio.

12:28
Mae gan y sector preifat rôl ganolog yn yr economi gylchol a thrwy newid eich modelau busnes i symud o werthu nwyddau yn unig i ddarparu gwasanaethau atgyweirio ac ailddefnyddio, gallwch helpu i ymestyn oes yr adnoddau presennol.

12:44
Bydd hyn yn allweddol mewn newidiadau diwylliannol, a hynny yn nhermau dulliau dylunio ac ymddygiad defnyddwyr fel ei gilydd, ac yn olaf, sgiliau a datblygu gydol oes.

12:55
Allaf i ddim pwysleisio digon mor bwysig yw addysg mewn newidiadau diwylliannol.

13:00
Rydym am weld sgiliau a gwybodaeth atgyweirio ac ailddefnyddio yn cael eu dysgu i blant mewn ysgolion cynradd yr holl ffordd drwy addysg uwchradd a thrydyddol, gyda chyfleoedd ar gyfer uwchsgilio parhaus drwy gydol eu gyrfa.

13:12
Rydym am annog prentisiaethau sy’n canolbwyntio ar atgyweirio ac ailddefnyddio gyda chyfleoedd wedi’u teilwra ar gyfer grwpiau ar y cyrion.

13:19
Gan ddod â phethau’n ôl i hygyrchedd bob amser.

13:23
Ac rwyf am gymryd mwy o gwestiynau.

13:31
Mae'n ymddangos bod logisteg o chwith yr economi gylchol yn her fawr, gan gynnwys didoli a graddio cynhyrchion i'w hailddosbarthu, boed ar gyfer eu hailwerthu, eu hailgylchu neu eu huwchgylchu.

13:41
A oes gen i unrhyw sylwadau ar hyn?

13:47
Ar y funud, na.

13:50
Mae yna nifer o brosiectau eraill sy'n mynd rhagddynt yn awr o fewn WRAP lle byddwn yn edrych ar bethau fel logisteg o chwith.

13:59
Byddwn yn edrych ar sut y gallwn o bosibl ailddosbarthu pethau rhag mynd i mewn i'r ffrwd wastraff, gan geisio dargyfeirio pethau o safleoedd tirlenwi.

14:12
Felly dyna brosiect cyfredol a fydd yn cael ei gyhoeddi’n nes ymlaen y flwyddyn nesaf, gobeithio.

14:18
Felly ar hyn o bryd, alla i ddim gwneud sylwadau ar hynny yn y camau cynnar iawn hyn.

14:23
Gobeithio bod hynny’n ateb eich cwestiwn.

14:29
Gaf i siarad am y metrigau a’r dangosyddion perfformiad allweddol eto, dyna brosiect sy’n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

14:36
Y mae’r un peth, neu'r un corff o waith, ag yr ydym yn sôn amdano gyda'r prosiect yn edrych ar ddargyfeirio eitemau sy'n mynd i safleoedd tirlenwi trwy fecanweithiau atgyweirio ac ailddefnyddio.

14:55
Rwy’n credu bod ychydig mwy o wybodaeth am hyn yn y ddogfen ymgynghori ei hun.

15:02
Ond eto, rwy’n meddwl mai’r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud gyda’r ymgynghoriad yw, os oes gennych unrhyw syniadau, cysylltwch â ni, naill ai drwy e-bost neu drwy’r ymgynghoriad ac awgrymwch eich syniadau gwych oherwydd byddwn yn cymryd ystyried pob un ohonynt.

15:23
Faint o ymgysylltu ydyn ni wedi’i gael gyda’r sector preifat?

15:27
Mi wnaethon ni fynd allan at nifer o fusnesau yn y sector preifat y gwyddom fod ganddynt ddiddordeb mewn atgyweirio ac ailddefnyddio; rydym wedi bod mewn cysylltiad â hwy drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel un i un, a hefyd gwahoddwyd sawl corff i’n gweithdai rhanddeiliaid.

15:49
Rhai o’n prosiectau.

15:50
Felly, er enghraifft, roedd y dadansoddiad atgyweirio, y dadansoddiad o’r bwlch sgiliau a darpariaeth gwasanaeth, y sector atgyweirio, a’r sector atgyweirio preifat y tu allan i gwmpas y prosiect hwnnw.

16:03
Felly roedd yn canolbwyntio’n bennaf ar y [sectorau] gwirfoddol, elusennol a mentrau chymdeithasol.

16:10
Felly rydym wedi gwneud o ran y cyfweliadau a'r gweithdai, ond mewn prosiectau eraill roeddent y tu hwnt i'r cwmpas.

16:18
A pha rôl all yr awdurdodau lleol ei chymryd, nid yw hynny i WRAP ei ddweud mewn gwirionedd.

16:25
Dyna rywbeth dwi’n meddwl y mae’r awdurdodau lleol yn cael eu gwahodd i ymgynghori arno hefyd.

16:33
Ac mae am fod yn broses gydweithredol o ddeall a gweithio ynghyd tuag at hynny a diffinio’r rôl honno.

16:41
Os yw’n ymwneud â gwneud prosiectau’n wydn yn y dyfodol o ran costau staff, mae’n fater o brosiectau cynaliadwyedd, yn enwedig gyda chyfyngiadau cyllidebau awdurdodau lleol.

16:52
A fydd yna fwy o arian i gefnogi prosiectau i sicrhau hirhoedledd?

16:56
Ymddiheuriadau eto, a gwn fod hyn yn swnio fel ateb i osgoi atebolrwydd, ond nid yw'n rhywbeth y gall WRAP wneud datganiad arno.

17:02
Ond gwyddom fod hyn yn fater sydd angen sylw.

17:04
Mae’r llywodraeth yn gwybod bod hwn yn fater sydd angen sylw.

17:06
Yr hyn y gwnaf ei ofyn ichi yw eich bod yn dod â’r materion hyn i’r ymgynghoriad ac yna gellir dadansoddi’r holl atebion hyn a’u  hystyried gyda’i gilydd.

17:15
Felly, mae darlleniad cyntaf yr ymgynghoriad yn awgrymu bod y syniad o wreiddio atgyweirio ac ailddefnyddio fel peth arferol yn dibynnu ar y 3ydd sector.

17:25
Fyddech chi’n cytuno, ac os felly, ai’r bwriad yw bod angen i’r trydydd sector weithio gyda busnesau ac awdurdodau lleol?

17:36
Mae’r ymchwil rydyn ni wedi’i wneud wedi dangos bod llawer o’r cyfrifoldeb ar y sector gwirfoddol.

17:45
Yn sicr.

17:47
Er bod hynny’n wych a’n bod yn cydnabod yr ymdrechion hynny, cydnabyddwn hefyd na ddylai unrhyw un corff fod yn gyfrifol am newid diwylliannol mor fawr.

17:56
Felly ydyn, rydym ni'n hollol, wyddoch chi, mae ein Map Trywydd yn awgrymu bod cydweithio rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector gwirfoddol, maen nhw i gyd yn dod at ei gilydd oherwydd dyna beth yw diwylliant mewn gwirionedd.

18:09
Mae pawb yn cymryd rhan.

18:11
Felly, os yw’n iawn, rwyf am symud ymlaen i’r rhan nesaf, sef siarad am yr ymgynghoriad ei hun.

18:21
Felly, pam mae yna ymgynghoriad ar y map trywydd atgyweirio ac ailddefnyddio?

18:25
Yn y pen draw, y nod yw sicrhau bod lleisiau sector atgyweirio ac ailddefnyddio Cymru, busnesau Cymru a thrigolion Cymru yn cael eu clywed a’u cynnwys yn y newid i ddiwylliant cyffredinol o atgyweirio, ailddefnyddio ac ailweithgynhyrchu.

18:40
Felly pam mae eich angen chi i gyd arnom ni?

18:42
Oherwydd, fel y dywedais i, nid yw diwylliant yn gyffredinol oni bai fod pawb yn teimlo eu bod yn rhan ohono.

18:48
Yn wyneb heriau amgylcheddol ac adnoddau, mae angen i arferion atgyweirio ac ailddefnyddio fod y peth cyntaf ar feddyliau pawb.

18:55
Golyga hyn bod angen i bawb deimlo eu bod yn rhan ohono a bod eu barn yn bwysig.

18:59
Felly, drosodd i chi.

19:02
Os ydych chi'n cefnogi'r Map Trywydd, bydd cyfle i chi arddangos hyn ar ein gwefan, yn ogystal ag arddangos y gwaith gwych rydych chi'n ei wneud sy'n arwain y ffordd.

19:13
Bydd mwy am hyn yn ystod yr wythnosau nesaf a fydd yn cael ei gyfathrebu trwy e-bost neu ar ein cyfryngau cymdeithasol hefyd.

19:23
Felly sut mae'r ymgynghoriad yn digwydd?

19:26
Mae WRAP yn cynnal yr ymgynghoriad fel arolwg ar-lein ar SurveyMonkey ar ran Llywodraeth Cymru.

19:34
Bydd hwn ar agor am 12 wythnos, felly mae ar agor yn barod.

19:36
Allaf i ddim cofio’r union ddyddiad yr agorodd, a’r dyddiad cau yw dydd Sul 20fed Hydref.

19:46
Ymhle mae’r ymgynghoriad?

19:48
Ar ein gwefan.

19:50
Bydd dolenni gennyf yn y sgwrs.

19:53
Rwy’n credu bod y dolenni am gael eu hanfon i’r panel sgwrsio nawr.

19:55
Bydd y dolenni hefyd ar y sleid nesaf fel y gallwch glicio ar y dolenni hynny pan fyddwch yn cael y pecyn o’r cyflwyniad hwn.

20:03
Gofynnwn ichi ddarllen yr adroddiad cryno ac yna ateb arolwg yr ymgynghoriad.

20:08
Dyma’r dolenni.

20:09
Gallwch lenwi’r arolwg ar-lein neu gallwch hefyd lawrlwytho’r cwestiynau a’i lenwi fel PDF.

20:16
Ac yna ei anfon mewn ebost at ein uwch ddadansoddwr hyfryd, Anna Pitts, gyda’r llinell pwnc yn nodi ‘ymgynghoriad map trywydd’.

20:25
Felly, sut allwch chi ateb yr ymgynghoriad?

20:29
Nid wyf yn awgrymu sut y dylech yn ei ateb o bell ffordd, ond rwyf ar ganol dadansoddi ymgynghoriad arall ac rwyf wedi gweld rhai enghreifftiau o arfer da iawn a gobeithio y byddwch yn deall yr hyn yr wyf yn ei olygu wrth i mi fynd ymlaen.

20:45
Felly mae un neu ddau o bethau yr hoffem i chi eu cadw mewn cof.

20:50
Gyntaf oll, byddwch yn benodol, da chi.

20:52
Felly, rhowch adborth clir a manwl, a byddwch yn berthnasol.

20:56
Felly cadwch at y pwnc a’r cwestiwn a ofynnir.

20:59
Mae cyfle i chi ar ddiwedd yr arolwg ymgynghori roi unrhyw syniadau nad ydynt efallai’n berthnasol i gwestiwn penodol yn yr arolwg.

21:09
Ond unrhyw beth y gallwch chi feddwl amdano, boed hynny'n dystiolaeth, yn gyfleoedd neu'n rhwystrau nad ydych chi'n teimlo ein bod ni wedi tynnu sylw atynt, mae lle i hynny, yn sicr.

21:18
Byddwch yn adeiladol, gan gynnig barn gytbwys ac awgrymiadau ymarferol.

21:22
Osgowch eithafion yn eich barn a byddwch yn barchus.

21:26
Does gen i ddim amheuaeth y bydd pawb ar y gweminar hwn yn barchus.

21:30
Ond fel y dywedais, rwyf ar ganol dadansoddi ymateb i ymgynghoriad arall.

21:36
Ac er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn rhoi barn wirioneddol wych, ond gan eu bod efallai wedi cynnwys rhai geiriau sy’n rhegfeydd, ni allwn gynnwys eu hymateb na rhoi cymaint o bwys iddo ag eraill dim ond oherwydd bod ganddo agweddau di-chwaeth.

21:55
Rwy'n gwybod y gallai hyn ymddangos ychydig yn sylfaenol, ond rwyf am nodi pam mae rhai o'r atebion hyn ychydig yn fwy defnyddiol fel rhywun sy'n gwneud y dadansoddiad, sy'n mynd i wneud yr ymarfer cyflym.

22:07
Ond yr hyn rydw i'n mynd i'w wneud yw, rwyf am ddarllen cwpl o ymadroddion ac rydw i'n mynd i ddweud wrthych chi a ydyn nhw'n cadw at arfer da neu a ydyn nhw ddim yn arfer cystal.

22:21
Felly, er enghraifft, rwy'n meddwl bod gan y syniad hwn botensial oherwydd bydd yn fy helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth yr wyf yn edrych amdani ymhen hanner yr amser.

22:30
Mae hynny’n enghraifft o arfer da oherwydd mae ganddo esboniad clir pam mae gan y person hwn y farn honno.

22:35
Mae’r syniad hwn yn ofnadwy.

22:37

Rwy’n mawr obeithio na welwn hyn drwy gydol yr ymgynghoriad, ond mae’n ddiffyg adborth adeiladol.

22:44
Felly dywedir wrthyf ei fod yn ofnadwy, ond nid yw'n dweud wrthyf pam rydych chi'n meddwl ei fod yn ofnadwy.

22:49
Mae popeth yn berffaith, nid oes angen newid.

22:51
Hoffwn weld hyn, ond eto, yr un peth ydyw.

22:54
Nid oes unrhyw ateb perffaith, ac nid oes adborth adeiladol.

22:58
Mae'r cynnig hwn yn ardderchog ond gall fod yn ddrud i'w gyflawni o gymharu ag eraill.

23:04
Mae hwn yn syniad da o arfer da oherwydd ei fod yn rhoi barn gytbwys i mi ac yn olaf, bydd y syniad hwn yn gweithio mewn dinasoedd ond nid mewn lleoliadau gwledig.

23:15
Mae hwn yn bwynt rhagorol, ond nid yw wedi rhoi unrhyw dystiolaeth i mi pam efallai na fydd yn gweithio.

23:24
Y pŵer “oherwydd” na ellir ei orbwysleisio.

23:27
P’un a ydych yn cytuno neu’n anghytuno ag un o’n cynigion, nid ydym yn gwybod a fydd yr awgrymiadau a’r syniadau’n gweithio ai peidio, neu a oes angen eu gwella heb ddeall eich safbwynt yn llawn a gwerthfawrogir unrhyw dystiolaeth y gallwch ei darparu bob amser.

23:46
Felly, pwy gaiff ateb yr ymgynghoriad?

23:50
Yr ateb cryno yw: pawb yng Nghymru.

23:53
Mae’r ymgynghoriad yn agored i drigolion, busnesau a sefydliadau yng Nghymru ac, yn ogystal â rhannu eich barn, rydym yn gobeithio y gallwch rannu’r ymgynghoriad â’ch rhwydwaith er mwyn i chi allu rhannu’r ddolen.

24:08
Gallwch rannu negeseuon o’n sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol.

24:11
Felly os ewch chi i WRAP ar LinkedIn, mae gennym ni'r rheini, y postiadau hynny a byddant yn cael eu hamserlennu'n rheolaidd.

24:17
Hefyd, rwy'n meddwl y bydd pytiau e-bost i chi anfon at unrhyw un o'ch rhwydwaith.

24:25
Felly os oes gennych chi fwletin wythnosol, bwletin misol, a fyddech cystal â chynnwys yr ymgynghoriad o fewn hwnnw.

24:33
Byddai hynny’n ddefnyddiol dros ben.

24:35
Ac felly yn olaf, unrhyw gwestiynau, rwy'n gweld bod cwpl yn y sgwrs ac mae'r rheini i gyd yn ymwneud â'r ymatebion.

24:44
Ymddiheuriadau am hyn.

24:45
Doeddwn i heb sylweddoli ein bod wedi diffodd [y cyfleuster] hwnnw.

24:47
A ydym yn chwilio am ymatebion gan ddinasyddion neu ymarferwyr yn bennaf?

24:53
Pawb, pob un ohonoch.

24:57
Nid oes un grŵp yn cael mwy o bwys na’r llall.

25:00
Ond cyn belled â bod gennym, fel y dywedais, dystiolaeth, enghreifftiau neu ddealltwriaeth o'ch safbwynt ar yr awgrym, yna ydym, rydym yn gofyn i bawb yng Nghymru oherwydd, wyddoch chi, mae'r cydweithio yn ganolog i unrhyw ddiwylliant. Pan rydym wedi cyrchu’r darnau o waith ymchwil y mae’r ffigurau’n deillio ohonynt ar y map trywydd, oes, mae dolenni, ac ar ddiwedd y ddogfen mae llyfryddiaeth ar gael.

25:28
Felly unrhyw adeg y mae ffigur penodol wedi’i gyfeirio ato, rydym yn darparu ffynhonnell y ffigurau hynny.

25:36
Felly maen nhw yn y map trywydd.

25:38
Os oes unrhyw beth yn benodol y gallwch, rydym am ddangos ein cyfeiriadau ebost mewn moment.

25:42
Felly os oes yna unrhyw beth penodol yr hoffech ei ofyn, mae croeso cynnes i chi anfon ebost atom ac fe wnawn ni weld beth y gallwn ei wneud.

25:51
A oes yna unrhyw gwestiynau eraill?

25:54
Wel, os felly, awgrymaf ein bod yn ei gadael hi yn y fan hon.

26:03
Fel y dywedais, fy nghyfeiriad ebost yw ellie.trotman@wrap.org.uk.

26:09
Felly os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso ichi anfon ebost ataf ac mi wna i gysylltu'n ôl â chi cyn gynted â phosibl.

26:15
Byddwn yn anfon y cyflwyniad hwn fel PDF at bawb a oedd yn bresennol ac fe wna i wirio eto a fyddwn yn anfon y recordiad hefyd.

26:26
Ond ie, diolch yn fawr iawn i chi.